PWYLLGOR PENODI

DYDD MERCHER, 20 MEHEFIN 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Mackie, Robson, Wild a/ac Williams |

1 : YMDDIHEURIADAU

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiad o fudd ar gyfer y cyfarfod hwn.

3 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:-

*“Cyflawni swyddogaethau’r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y’u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor”.*

4 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

5 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol oherwydd petaent yn bresennol yn ystod y drafodaeth ac oherwydd natur y busnes, datgelid gwybodaeth iddynt a eithrir fel y’i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y disgrifir isod:

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy’n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i’r awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL - STRYDLUN

Galwyd y Pwyllgor i gyfweld yr un ymgeisydd a gyrhaeddodd y rhestr fer a gynigiwyd gan y Pwyllgor ar 5 Mehefin 2018 yn dilyn canlyniadau’r Ganolfan Asesu.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod Ymgeisydd 1 wedi tynnu nôl o’r broses.
Fel rhan o’r broses gyfweld, rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i aelodau archwilio cynnwys y cyflwyniad a gofyn cwestiynau yn ei gylch. Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y pwyllgor eu bod yn gallu penodi i swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strydlun.

PENDERFYNWYD:

1. Fod Mathew Wakelam i'w benodi'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol Strydlun ar y cyflog blynyddol sy'n gysylltiedig â'r swydd:
2. Cynhaliwyd y broses ddewis yn unol â'r broses benodi ac fe gafodd yr ymgeisydd ei drin yn gyfartal a theg.